

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed Medi, 2023.

1.	Presennol:	Megan Lloyd Williams (Is-gadeirydd), Enid Egginton, Clifford Williams Michael Jones (Garndolbenmaen), John Till (Golan), Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Williams, (Prenteg), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), Iddon Edwards, Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)
2.	Ymddiheuriadau:	Sarah Jones (Pentrefelin), Jess Williams (Penmorfa), John Jones (Cadeirydd), Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd Stephen Churchman a Chynghorydd June Jones (Cynghorwyr Sir Gwynedd)
3.	Ddim yn bresennol:	Neb
4.	Datgan Buddiant:	Neb
5.	Cywirdeb y Cyn-gofnodion	Richard Williams yn cynnig a Clifford Williams yn eilio.
6.	Materion yn Codi o'r Cyn-gofnodion	<p><u>Arwydd Prenteg:</u> Traffig wedi cychwyn ar y cynllun o osod arwydd - ddim yn addas i loriau. Heb dderbyn ymateb am yr un ym Mryncir. Clerc i gysylltu hefo Traffig eto.</p> <p><u>Bwlch y Moch:</u> <u>Ymateb Traffig</u> - Nid yw'r cerbydau yn creu pryderon neu berygl gyda llif traffig gan fod y ceir yn gyfan yn cael ei barcio oddi wrth y briffordd ac ar yr ymylon. Nid oes gan y gwasanaeth pwerau i orfodi ar ymylon heb orchymyn traffig yn ei le. Yr unig bwerau sydd gan Gyngor Gwynedd ydi ceisio erlyn gyrwyr sydd wedi difrodi'r ymylon gyda'i gerbydau a chredaf mai penderfyniad gan yr adran Priffyrdd fysa hyn. Er bod y sefyllfa yn un rhwystredig, ychydig iawn all y Cyngor ei wneud yn unol â'r gyfraith.</p> <p><u>Ymateb Priffyrdd</u> - Mae Merfyn Griffith wedi bod allan i archwilio'r lleoliad ac mae o'n dweud bod yna ychydig o ddifrod yn cael ei wneud i'r ymylon ac mae o am gadw llygaid ar y sefyllfa.</p> <p>Wedi derbyn e-bost gan Tom Carrick o'r BMC a Joanne Wallbanks o Hadfer Glamping. Y ddau yn awyddus i drafod y sefyllfa ymhellach ac i weld be all gael ei wneud i ddatrys y sefyllfa. Clerc i fynd ymlaen i drefnu cyfarfod.</p> <p><u>Cyfyngiad Cyflymder - Prenteg</u></p> <p><u>Ymateb Traffig</u> - Mae Canllawiau Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru 2009 yn llywodraethu'r ffordd y mae pob Awdurdod Lleol yn</p>

gosod terfynau cyflymder o fewn eu hardaloedd gweinyddol. Rwyf wedi cynnwys dolen i'r canllawiau isod:

Canllawiau ar gyfer gosod terfynau cyflymder lleol yng Nghymru
Mae'n bwysig nodi bod y canllawiau uchod yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a bydd y Canllawiau Gosod Terfynau Cyflymder Lleol newydd yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn 2023. Pan adolygir ffyrdd 60mya, defnyddir Canllawiau Rheoli Diogelwch Gwledig y Sefydliad Priffyrdd a Thrafnidiaeth i benderfynu ar neilltuo terfyn cyflymder ar y ffyrdd hynny.

Fodd bynnag, rhaid imi eich hysbysu bod yr Uned Draffig ar hyn o bryd o dan bwysau aruthrol i gyflawni prosiect newydd Llywodraeth Cymru sef cyflwyno terfynau cyflymder 20mya mewn ardaloedd trefol â goleuadau stryd ledled Gwynedd erbyn 2023. Felly, rhaid imi roi gwybod ichi y byddai oedi sylweddol wrth asesu terfynau cyflymder ar unrhyw ffyrdd yn y sir. Mae hefyd yn bwysig aros i'r canllawiau newydd gael eu cyhoeddi cyn cyflwyno terfynau cyflymder newydd. Bydd cynnig i leihau unrhyw derfynau cyflymder yn cael ei werthuso ar sail nifer o ffactorau sy'n cynnwys dwysedd y boblogaeth, data gwrthdrawiadau a chefnogaeth gan y boblogaeth leol, cynghorydd sir ac eich hunain y cyngor cymuned. Os oes dadl gyfreithiol gref dros gynnig cyfyngiad cyflymder newydd, bydd proses gyfreithiol yn cychwyn. Fodd bynnag, rhaid imi eich gwneud yn ymwybodol y bydd y cynnig yn destun craffu cyhoeddus fel rhan o'r broses gyfreithiol honno. O ganlyniad i'r rhwymedigaeth gyfreithiol hon, mae angen cynnal cyfres o ymgynghoriadau cyhoeddus i fesur teimladau'r cyhoedd ynghylch cyflwyno'r cyfyngiadau hyn. Rhaid imi eich rhybuddio pan gawn wrthwynebiadau i gynnig ei fod yn cymhlethu ein gallu i weithredu'r cyfyngiadau arfaethedig ac yn aml mae'n annhebygol y bydd y cynnig yn llwyddiannus oherwydd pwysau barn y cyhoedd yn erbyn cyfyngiadau o'r fath.

Llwybrau Cyhoeddus

Llwybr 105 - adroddwyd bod y gwaith wedi ei wneud ac i safon dda.

Arwyddbyst - Wedi archebu mwy o arwyddbyst - aros i'r rhain gyrraedd. Adroddwyd eto bod arwydd Capel Bryn Melyn a Bron y Foel wedi diflannu. Dywedodd y Clerc eu bod yn aros i'r arwyddbyst gyrraedd a byddent yn cael eu hail osod gobeithio. Clerc i gysylltu hefo Llwybrau Cyhoeddus.

Cwm Bach - Wedi trwsio giât Cwm Bach i Bant Ifan dros dro - am roi sbring newydd tro nesa' bydd yn yr ardal.

		<p><u>Lôn Fudr</u>- Traffig wedi gofyn i Briffyrdd i dorri'r gwrychoedd. Andrew Gregson eisiau sgwrs hefo Megan/John Till parthed y lôn i weld beth yw'r broblem. Clerc i drefnu cyfarfod safle.</p> <p><u>Gwaith Dŵr, Cwmystradllyn</u> - Maent wedi torri'r ragwort wythnos diwethaf. Neb ar gael i gyfarfod ar safle tan fis Hydref - ar ei wyliau am weddill Mis Medi. Clerc i drefnu cyfarfod safle. Adroddwyd hefyd bod y gwrych sydd gyfochrog â'r lôn angen ei dorri.</p> <p><u>Archwilwyr Allanol</u> -Cyfrifon wedi eu hanfon gyda recorded delivery ar y 17eg o Orffennaf.</p> <p><u>Treth ar Werth</u> - Cais adhawlio TAW wedi ei wneud ar y 29ain o Awst ac 'da ni wedi derbyn £909.00 yn ôl - yn y cyfrif ers y 1af o Fedi.</p> <p>Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.</p>
7.	Mynwentydd:	<p><u>Mynwent Eglwys Pennant, Cwm Pennant:</u> Gofynnwyd a oedd Mynwent Pennant wedi cael ei holl doriadau a hefyd y llwybr tuag at y fynwent. Clerc i gysylltu hefo'r contractwr.</p> <p><u>Mynwent Bethel:</u> Adroddwyd bod y fynwent yn daclus iawn pan ymwelwyd ag o yn ddiweddar.</p> <p><u>Mynwent Prenteg:</u> Aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu parthed cyflwr ffordd y fynwent. Nodwyd bod nifer o lorïau wedi bod yn defnyddio'r ffordd a bod tyllau ar yr wyneb ac ymsuddiant. Cynghorwyr wedi bod i weld y ffordd ac wedi adrodd bod twll bach yng nghanol y ffordd ac ychydig o hoel cerbyd wrth y concrit ond dim byd i greu anhawster. Hwyrach ei fod wedi bod yn waeth ond wedi ei thaclo. Mae'r tyfiant ochr uchaf i'r lôn wedi ei dorri felly mae pob dim i weld yn dderbyniol. Clerc i gysylltu yn ôl hefo'r aelod o'r cyhoedd.</p>
8.	Llwybrau Cyhoeddus:	<p>Llwybr 5 - Adroddwyd bod y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau ac i safon dda.</p> <p>Soniwyd nad yw'n edrych fel petai'r gwaith torri wedi ei wneud ar y rhan uchaf o'r llwybr yn arwain i fyny at Brynmoel.</p> <p>Awgrymwyd efallai bod llwybr o Fryn Melyn i Bentrefelin a llwybr Cefn Meysydd Isaf i Gefn Meysydd Uchel angen toriad ychwanegol. Penderfynwyd peidio trefnu toriad ychwanegol.</p>

		<p>Adroddwyd hefyd fod boncyff wedi disgyn ar lwybr Bryn Melyn. Clerc i gysylltu hefo Ystâd y Wern i ofyn iddynt ei dorri.</p>
<p>9.</p>	<p>Adroddiad Pentrefi</p>	<p><u>Garndolbenmaen:</u> Dywedwyd fod pryder parthed nifer o blant sydd yn yr ysgol. Adroddwyd mai dim ond 19 sydd yn yr ysgol.</p> <p><u>Penmorfa:</u> Soniwyd fod arwydd Rhes Glyn wedi disgyn. Clerc i gysylltu hefo Priffyrdd i weld os yw'n bosib cael ei ail-osod.</p> <p>Adroddwyd fod ffordd gefn Penmorfa angen cael ei dorri yn fyrrach neu angen mwy o doriadau. Clerc i gysylltu hefo Priffyrdd.</p> <p>Dyweddodd I.E ei fod am ymgeisio am grantiau i geisio cael mwy o offer i'r Cae Chwarae. Gofynnodd am gefnogaeth y Cyngor Cymuned. Clerc i ysgrifennu llythyr yn cefnogi'r ceisiadau. R.W yn cynnig a C.W yn eilio.</p> <p>Adroddwyd fod traffig yn gyrru yn ofnadwy drwy Benmorfa yn enwedig wrth ddod i mewn o gyfeiriad Porthmadog. Llauer o bobl yn cerdded a chroesi'r ffordd. Clerc i wirio os yw Penmorfa yn rhan o'r cynllun 20mya.</p> <p><u>Bryncir:</u> Gwrych angen ei dorri ger yr arosfa bws. Clerc i gysylltu hefo perchennog Station Cottage i gael caniatâd ac i drefnu pris ar gyfer gwneud y gwaith.</p> <p><u>Pentrefelin:</u> Diolchwyd i Idris am greu'r arwydd Eglwys Ynys Cynhaearn a hynny yn ddi-dâl ac i Raymond Jones am ei osod. Clerc i lythyru Idris i ddiolch.</p> <p><u>Golan:</u> Adroddwyd bod llysiau'r dial yn tyfu yn yr encilfa ger Glenennau a'u bod mor uchel â 6 throedfedd.</p> <p>Cafwyd cwyn gan aelod y cyhoedd yn dweud fod y gwaith o agor ffosydd wedi cael ei wneud a'i fod yn waith sâl ofnadwy. Bod y pridd yn cael ei glirio o'r ffosydd a'i adael ar yr ochr i ddisgyn yn ôl i mewn. Dywedwyd fod hyn yn culhau'r ffordd yn ofnadwy hefyd. Soniwyd fod y person yma wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd ddeufis yn ôl a heb gael ymateb.</p> <p>Adroddwyd fod dŵr yn llifo ar draws y ffordd o ochr Cefn Peraidd i Glenennau a bod y ffordd yn erydu.</p> <p>Clerc i adrodd am yr uchod i Briffyrdd.</p> <p><u>Prenteg:</u> Dim i'w adrodd</p>

10.	Apêl Eisteddfod Genedlaethol - Dolbenmaen	<p>Hoffai'r Cyngor Cymuned longyfarch a diolch yn fawr iawn i bob aelod o Bwyllgor Apêl Eisteddfod Dolbenmaen am eu holl waith caled yn casglu'r arian gan ddyblu eu targed a hefyd am drefnu a gosod yr holl addurniadau i harddu'r ardal. Clerc i lythyru Cadeirydd y Pwyllgor i ddiolch ac i'w llongyfarch.</p> <p>Ar ran Pwyllgor Apêl Eisteddfod Dolbenmaen, diolchwyd i'r cyngorwyr cymuned i gyd am eu rhan yn cefnogi'r Pwyllgor Apêl, boed hynny yn ariannol, wrth arwain a mynychu teithiau cerdded ac wrth addurno a harddu'r ardal.</p> <p>Diolchwyd hefyd i'r clerc am drefnu'r bwrdd gwybodaeth a sicrhau ei fod yn cael ei osod cyn yr eisteddfod.</p>
11.	Gohebiaeth	<ul style="list-style-type: none"> a. Cyngor Gwynedd - Rhybudd Cau Ffordd Ddi-ddosbarth Ger Garnedd Hir - 21ain o Orffennaf. b. Cyngor Gwynedd - Cynllun 20mya - Ymgynghoriad ac angen ymateb erbyn y 14eg o Awst, 2023. Rhannwyd 17/07/2023. c. Cyngor Gwynedd - Erthygl 4 - Ymgynghoriad yn cau 13eg i Fedi, 2023. Linc i ymateb: Cynllunio (llyw.cymru)
	Gohebiaeth Ychwanegol	<ul style="list-style-type: none"> a. Pensolar Cyf - Gwybodaeth parthed grantiau sydd ar gael gan y Grid Cenedlaethol i osod paneli solar ar adeiladau cymunedol. Clerc i readru i Bwyllgorau'r Neuaddau. b. Steffan Smith - llythyr yn gofyn am gael sgwrs ymhellach parthed tai yng ngofal y gymuned. Clerc i'w wahodd i'r cyfarfod mis Hydref. c. Tom Carrick - Swyddog Mynediad a Chadwraeth y BMC - eisiau sgwrs a thrafodaeth bellach parthed problem parcio Bwlch y Moch. ch. Joanne Wallbanks - Hadfer Glamping - eisiau trefnu cyfarfod i drafod problem parcio Bwlch y Moch. d. Cronfa Gymunedol Y Loteri Genedlaethol - penderfyniad cais grant dd. Cronfa Cydlyniant Cymunedol - penderfyniad cais grant. e. Gwenllian Carr - Cyfarwyddwr Strategol, Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Clerc i ymateb. Pawb i ymateb i'r holiadur yma cyn y 15fed o Fedi: https://forms.gle/6TMHoPhsEM32yXVZ7 f. Hwb Iechyd Eifionydd - Diweddariad
12.	Cynllunio	<u>Rhestrau</u>

		<p>Gorffennaf - 3/7, 10/7, 17/7, 24/7 a 31/7</p> <p>Awst - 7/8, 14/8, 21/8, 28/8</p> <p>Ceisiadau Cynllunio:</p> <p>C23/0522/36/LL - Llecheiddior Uchaf, Bryncir, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9EZ. Cais ar gyfer gwneud estyniad fertigol i bwll tywod a graean ynghyd a ôl-lenwi ac adfer i ddefnydd amaethyddol.</p> <p>Dim gwrthwynebiad ar yr amod fod sylw yn cael ei roi i'r boncen yn y ffordd ger y chwarel a bod y ffordd ar palmant ym Mryncir yn cael ei lanhau yn wythnosol.</p> <p>NP2/16/LB194G - Erw Suran, Cwmystradllyn, LL51 9BQ. Adeiladu estyniad cefn a throsi adeilad allanol cysylltiedig i greu lle byw ychwanegol.</p> <p>NP2/16/LB194F - Erw Suran, Cwmystradllyn, LL51 9BQ. Caniatâd Adeilad Rhestredig i adeiladu estyniad cefn, trosi adeilad allanol cysylltiedig i greu lle byw ychwanegol, gwaith adfer a man newidiadau mewnol.</p> <p>Rhodddwyd y sylwad fod y cynlluniau i weld yn iawn ond bod pryder fod Beudy Cefn yn uned gwyliau/ail gartref a bod Beudy Mawr yn nifer o unedau gwyliau a bod potensial i Erw Suran hefyd fod yn nifer o unedau eto. Y teimlad yw mai dim ond un uned ddylai fod yn Erw Suran.</p>																		
13.	Materion Ariannol	<p>Materion Ariannol</p> <p>Ceisiadau am arian: Cerebal Palsy Cymru</p> <p>Monitro'r gyllideb : Dim gorwariant</p> <p>Biliau i'w talu</p> <p><u>Awst</u></p> <table data-bbox="566 1720 1093 1960"> <tr> <td>Cyflog Clerc</td> <td>=</td> <td>£282.35</td> </tr> <tr> <td>Ffôn</td> <td>=</td> <td>£ 15.00</td> </tr> <tr> <td>Cyfrifiadur</td> <td>=</td> <td>£ 20.00</td> </tr> <tr> <td>HMRC</td> <td>=</td> <td>£ 70.40</td> </tr> <tr> <td>HSBC costau</td> <td>=</td> <td>£ 8.00</td> </tr> <tr> <td>Veolia</td> <td>=</td> <td>£ 33.79</td> </tr> </table> <p><u>Medi</u></p>	Cyflog Clerc	=	£282.35	Ffôn	=	£ 15.00	Cyfrifiadur	=	£ 20.00	HMRC	=	£ 70.40	HSBC costau	=	£ 8.00	Veolia	=	£ 33.79
Cyflog Clerc	=	£282.35																		
Ffôn	=	£ 15.00																		
Cyfrifiadur	=	£ 20.00																		
HMRC	=	£ 70.40																		
HSBC costau	=	£ 8.00																		
Veolia	=	£ 33.79																		

		<p>Cyflog Clerc = £282.35 Ffôn = £ 15.00 Cyfrifiadur = £ 20.00 HMRC = £ 70.40 HSBC costau = £ 8.00 Veolia = £ 23.60 Hughes-Jones, Dyson & Co = £360.00 D Williams - Adeiladwyr = £571.74 Ffion Gwyn = £1200.00 Madog Gardencare = £ 110.00 Costau Gweinyddol = £ 207.63 (6/9/22 - 31/8/23)</p> <p>Derbyniadau:</p> <p>Ifan Hughes = £110.00 Pritchard & Griffiths = £220.00 Henry Jones = £70.00 Cyngor Gwynedd (Praesept) = £9,000 Clwb Alltwn = £1,685.76 HMRC (TAW) = £909.00 Pritchard & Griffiths = £220.00 Llog = £93.28</p> <p>Balansau Cyfrifon Banc:</p> <p>Cyfrif Cadw: £27,059.31 Cyfrif Cyfredol: £18,566.86</p>
14..	Dewis Gohebiaeth i fynd i'r wasg/wefan	<ul style="list-style-type: none"> - Eisteddfod - Bwlch y Moch - Lon Fudr - Steffan Smith - Bwrdd Gwybodaeth, Pentrefelin - Llwybrau Cyhoeddus - Ffordd Gefn Penmorfa - Gwaith Dŵr, Cwmystradllyn